Siarter Amgylcheddol

Fersiwn 5
24.06.2021
Lluniwyd gan:
Paul Donovan
ar ran VAAN

Ymrwymiad i ddefnyddio'r amgylchedd naturiol Bro Morgannwg mewn modd cynaliadwy.

Beth yw Siarter Amgylcheddol VAAN?

Mae Siarter Amgylcheddol VAAN yn ymrwymiad gan aelodau VAAN i ddefnyddio amgylchedd naturiol Bro Morgannwg mewn modd cynaliadwy. Wrth arwyddo Siarter Amgylcheddol VAAN, mae pob aelod o VAAN yn gwneud ymrwymiad i weithio gyda thirfeddianwyr, rheolwyr tir a sefydliadau amgylcheddol i gadw'r Siarter yn berthnasol ac yn effeithiol wrth warchod yr holl safleoedd gweithgarwch amgylchedd naturiol y maent yn eu defnyddio.

Mae'r rhan fwyaf o'r ardaloedd a ddefnyddir gan aelodau VAAN yn eiddo preifat, ac mae Siarter Amgylcheddol VAAN yn annog grwpiau i ddangos parch ac ystyriaeth at drigolion lleol a defnyddwyr eraill, yn ogystal â dinasyddiaeth o ran y safleoedd gweithgarwch yr ymwelir â nhw.

Fel aelodau o VAAN, rydym yn dilyn tair egwyddor sylfaenol sy'n berthnasol i bopeth a wnawn a'r gweithgareddau a wnawn:

1. Rydym yn **diogelu'r amgylchedd naturiol** ac wrth wneud hynny, rydym yn cydnabod bod defnyddio'r amgylchedd naturiol yn dod gyda chyfrifoldeb i annog y rhai sydd yn ein gofal i ddysgu rhywbeth gan rinweddau arbennig cefn gwlad a'r ffyrdd y gellir gofalu amdano.

2. Rydym yn **mwynhau'r awyr agored ac yn cadw'n ddiogel** ac wrth wneud hynny, rydym yn ymrwymo i arfer da ar gyfer defnyddio'r amgylchedd naturiol mewn modd cynaliadwy.

3. Rydym yn **parchu pobl eraill** ac wrth wneud hynny, bob amser yn ymgymryd â gweithgareddau mewn modd sy'n cynnal cysylltiadau da

Pan ystyrir hyn yn briodol (ac/neu'n angenrheidiol), byddwn yn llunio ac/neu'n mabwysiadu **canllawiau arfer da** ar gyfer yr holl weithgareddau hamdden awyr agored perthnasol gydag arferion amgylcheddol da, ystyriaethau diogelwch ac ymddygiadau sy'n lleihau effeithiau andwyol ar gymunedau lleol.

Mae VAAN **yn gweithio gyda busnesau antur awyr agored a phartneriaid** ym Mro Morgannwg a'r cyffiniau i feithrin cyfleoedd cynaliadwy i wneud gweithgareddau antur awyr agored yn y Fro yn wirioneddol gynhwysol.

Ysgrifenyddiaeth: Dan ofal Atlantic Experience, Coleg yr Iwerydd, Castell Sain Dunwyd, Llanilltud Fawr, Bro Morgannwg CF61 1WF

Siarter Amgylcheddol

Fersiwn 5
24.06.2021
Lluniwyd gan:
Paul Donovan
ar ran VAAN

Siarter Amgylcheddol VAAN

Cadwraeth

- Rydym yn cydnabod y potensial mawr sydd i feithrin ymrwymiad i gadwraeth ymhlith ein cleientiaid. Mae natur ddwys a chofiadwy'r profiad awyr agored yn ei wneud yn ddull pwerus o werthfawrogi rhinweddau arbennig y Siarter Amgylcheddol ac amgylchedd naturiol Bro Morgannwg.
- Byddwn yn osgoi difrodi safleoedd ac yn lleihau unrhyw aflonyddu bywyd gwyllt, yn unol â chodau ymddygiad a deddfwriaeth bywyd gwyllt.
- Byddwn yn annog ein cydweithwyr, ein cleientiaid a'n myfyrwyr i fwynhau a pharchu'r bywyd gwyllt, y dirwedd a'r dreftadaeth ddiwylliannol yn amgylchedd naturiol Bro Morgannwg.
- Gwyddom fod llawer o safleoedd, planhigion ac anifeiliaid yn cael eu diogelu gan y gyfraith a'u bod yn fregus neu'n agored i aflonyddwch. Byddwn yn rheoli ein grwpiau i leihau aflonyddwch.
- Lle bynnag y bo modd, byddwn yn osgoi gadael unrhyw nodweddion newydd sy'n cael effaith sylweddol ar
  gefn gwlad, er enghraifft twmpathau cerrig ac arwyddion. Lle bo angen hyn am resymau diogelwch, byddwn yn ystyried meddylfryd presennol pob sefydliad sydd â diddordeb, gan gynnwys y tirfeddiannwr. Os oes digon o amheuaeth, byddwn yn ymgynghori â'r partïon perthnasol.
- Byddwn yn gosod marciau neu osodiadau dros dro er mwyn osgoi difrod neu ymyrraeth ag eraill.
- Byddwn yn cydymffurfio ag arfer da derbyniol ar gyfer casglu sbesimenau daearegol a biolegol.
- Byddwn yn cadw at Ddeddfwriaeth Mynediad i Gefn Gwlad a Chodau Cefn Gwlad/Morol lleol.
- Byddwn yn dangos ystyriaeth i'r gymuned leol a defnyddwyr eraill yr ardal.

Mynediad

- Rydym yn deall bod yr holl dir yn eiddo i rywun ac os ydym yn defnyddio safle, byddwn yn dilyn canllawiau mynediad a/neu ddeddfwriaeth berthnasol gyfredol, fel y nodir gan Lywodraeth Cymru.
- Byddwn yn sicrhau cytundeb tirfeddianwyr a rheolwyr tir pryd bynnag y dymunwn ehangu gweithgareddau i safleoedd neu ardaloedd newydd lle nad oes caniatâd presennol.

Siarter Amgylcheddol

Fersiwn 5
24.06.2021
Lluniwyd gan:
Paul Donovan
ar ran VAAN

- Byddwn yn parchu unrhyw ganllawiau VAAN perthnasol ar gyfer safleoedd sy'n agored i niwed a/neu sensitif lle mae materion neu broblemau penodol.
- Byddwn yn dangos ystyriaeth i dirfeddianwyr, trigolion ac eraill wrth yrru, parcio a gosod offer, er enghraifft cadw lonydd, llwybrau a gatiau yn glir.
- Byddwn yn sicrhau nad yw ein gweithgareddau'n amharu ar fwynhad pobl eraill, yn enwedig trwy osgoi sŵn afresymol a gormod o bobl.
- Byddwn yn annog ein cydweithwyr, ein myfyrwyr a'n cleientiaid i ddeall a pharchu anghenion y gymuned breswyl. Yn benodol, diogelwch, eiddo, gwaith a bywoliaeth pobl.

Datblygiad

- Rydym yn ymrwymo i'r Siarter hon a byddwn yn annog ein cydweithwyr a grwpiau eraill i ddilyn y safonau hyn.
- Byddwn yn ceisio datblygu adnoddau, offer a gwybodaeth y gall hyfforddwyr fynd â nhw i'w defnyddio fel cymhorthion yn y maes.
- Byddwn yn ceisio darparu amrywiaeth o ddigwyddiadau hyfforddiant amgylcheddol bob blwyddyn, a gaiff eu hwyluso gan arbenigwyr mewn meysydd penodol fel y rhai isod, er enghraifft:

Adnabod Blodau Gwyllt a Chacwn	Llên Gwerin	Chwilota Pyllau Glan Môr a Fforio'r Glannau
Gwylltgrefft a Chwilota	Daeareg	Mynediad a Chadwraeth
Deall ymddygiad bywyd gwyllt	Archaeoleg	Arfer gorau ar gyfer gwylio Bywyd Gwyllt Morol
Gweithdai sy'n benodol i weithgarwch ar gyfer Arweinwyr ac ati e.e. Arforgampau, Chwaraeon Padlo, Dringo Creigiau		

- Byddwn yn dysgu o weithio mewn partneriaeth â thirfeddianwyr. rheolwyr tir a sefydliadau perthnasol eraill.